# Polisi Cynaliadwyedd Prifysgol Abertawe 2022-23

Mae Prifysgol Abertawe yn cymryd rhan mewn gweithgarwch ymchwil arloesol sydd â goblygiadau dwys o ran deall a goruchwylio'r amgylchedd lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae hyn yn cynnwys prosiectau carbon isel a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at sbarduno'r Deyrnas Unedig i ddatgarboneiddio systemau ynni, a phrosiectau ym meysydd cyfreithiau amgylcheddol ac ynni, newid yn yr hinsawdd a rhewlifeg, bioamrywiaeth a chadwraeth, a dyframaethu cynaliadwy. Mae'r ymchwil hon yn gyfraniad mawr gan y Brifysgol at fynd i'r afael â heriau byd-eang i gynaliadwyedd.

Gyda throsiant blynyddol o fwy na £400m, cymuned o bron 23,000 o fyfyrwyr a mwy na 3,500 o staff, rydym hefyd yn cydnabod bod angen rheoli ein gweithrediadau mewn modd cynaliadwy, a bod pob un ohonom yn gyfrifol am hyn. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein hadeiladau'n garbon niwtral erbyn 2035 fel rhan o strategaeth ystadau'r Brifysgol (mae'r strategaeth a'i chyllid yn amodol ar gymeradwyaeth yn 2023), gan gydnabod yr argyfwng hinsawdd rydym ninnau, a chenedlaethau'r dyfodol, yn ei wynebu. Bydd y Polisi Cynaliadwyedd hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol, bydd ar gael i'r cyhoedd a phawb sydd â diddordeb, a bydd yn cael ei rannu â holl fyfyrwyr a staff y Brifysgol.

**Mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymo i'r canlynol:**

1. Lleiafu allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithrediadau'r Brifysgol.

2. Lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai (gan gynnwys tanwyddau ffosil, dŵr ac ynni).

3. Annog staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i deithio mewn modd llesol a chynaliadwy.

4. Arddangos ymagweddau cynaliadwy at yr amgylchedd adeiledig yn ein prosiectau adeiladu, adnewyddu a chynnal a chadw.

5. Hyrwyddo amrywiaeth fiolegol ar safleoedd y mae'r Brifysgol yn eu rheoli neu'n berchen arnynt.

6. Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir a pheidio â danfon gwastraff i gyfleusterau adfer ynni, gan drin gwastraff fel adnodd, hyrwyddo dulliau atal gwastraff, blaenoriaethu ei ailddefnyddio, a chynyddu gweithgarwch ailgylchu.

7. Diogelu'r amgylchedd drwy atal llygredd a thrwy ymrwymiadau penodol eraill sy'n berthnasol i gyd-destun y sefydliad.

8. Gwreiddio ymagweddau cynaliadwy a moesegol ym mhrosesau caffael nwyddau a gwasanaethau'r Brifysgol.

9. Hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ledled cwricwla ffurfiol ac anffurfiol.

10. Hybu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau mwy cynaliadwy ledled y Brifysgol ac yn y gymuned ehangach.

11. Gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a phartneriaid eraill i wella cynaliadwyedd y Brifysgol.

12. Addasu i newid yn yr hinsawdd, gan sicrhau cadernid a pharhad gweithrediadau a gwasanaethau.

13. Cyflawni ein rhwymedigaethau cydymffurfiaeth amgylcheddol.

14. Pennu, monitro ac adolygu amcanion perthnasol ac arddangos gwelliant parhaus yn ein perfformiad amgylcheddol.

**Llofnodwyd ar ran yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth:**

**Enw a swydd:** Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor
**Dyddiad:** 11 Ionawr 2023